# Cyngor Cymuned **Ceulanamaesmawr** Community Council

**Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd**
**nos Lun 26 Ionawr 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

**1. Croeso'r Cadeirydd**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Catrin Davies (Cyng. Sir), Nia Richards, Eryl Bray, Bleddyn Huws, Siôn Pennant Jones, Nest Jenkins ac Enoc Jenkins (Is-gadeirydd), a'r Cynghorwyr Mererid Watson a Rhian Evans (o bell)

**Yn cofnodi:** Lynwen Rees Jones

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

**2. Ymddiheuriadau**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. Datgan Buddiant Personol**

Pwynt **5.ii)** (prosiect Waun Hesgog) – *Enoc Jenkins, Rhian Evans*
Pwynt **8. ii)** (dyrannu grantiau):
*CFfI Tal-y-bont – Rhian Evans, Mererid Watson*
*Sioe Tal-y-bont – Enoc Jenkins*
*Cymdeithas Papur Pawb – Catrin Davies*
*Neuadd Goffa Tal-y-bont – Mererid Watson, Bleddyn Huws, Catrin Davies*
*Grŵp Llifogydd Tal-y-bont – Eryl Bray, Catrin Davies*
*Clwb Gofal Tal-yr-hwyl – Catrin Davies*

**4. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025, yn gywir, yn amodol ar y newidiadau canlynol: **5.ii)** newid '*ond nid oedd y Llifogwyr yn awyddus i gyfarfod o'r fath gael ei gynnal*' i '*ac roedd y Llifogwyr yn awyddus i ...*'; **5.iii)** newid *'roedd y Cadeirydd wedi mynd i'r cyfarfod agored'* i *'roedd nifer o'r Cynghorwyr wedi mynd ...'.*
Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Bleddyn Huws

**5. Materion yn codi:**

i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir: dim byd i'w adrodd

ii) Cyflwyniad Cwmni Bute (Waun Hesgog): anogwyd y Cynghorwyr i anfon eu hymatebion i'r cyflwyniad at y Cyng. Catrin Davies. Nodwyd na fyddai gan y Cyngor Cymuned na'r Cyngor Sir unrhyw ran i'w chwarae yn y penderfyniad i ganiatáu neu wrthod y prosiect.
Roedd y Cyng. Catrin Davies a Siôn Pennant wedi bod yn y cyfarfod ar 22 Ionawr, a chafwyd crynodeb fel a ganlyn: Roedd tri aelod o staff cwmni Bute yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr o amryw o gynghorau cymuned perthnasol. Esboniwyd beth oedd y Gronfa Gymunedol, a fyddai'n werth £1.58 miliwn y flwyddyn. Ar ôl gweld map o'r ardal dan sylw, holwyd pam y byddai'r trydan yn mynd i Loegr (byddai'n mynd draw i Bowys ac allan i Groesoswallt). Dywedwyd mai ar bolion pren y byddai'r ceblau'n cael eu cario ond mai cwmni Greengen a fyddai'n gyfrifol am hynny. Nodwyd y byddai'n bosibl cyflenwi trydan rhatach yn lleol, ond y byddai tipyn o waith gweinyddu ynghlwm wrth hynny. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai.
*(Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Enoc Jenkins a Rhian Evans.)*

**6. Adran 6 – Bioamrywiaeth**

Dim byd i'w adrodd, ond gofynnodd y Cyng. Nia Richards am gael gweld y ffurflenni grant a gyflwynwyd er mwyn nodi'r ymatebion i'r adran ar fioamrywiaeth.

**7. Gohebiaeth**

Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cynghorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

i) Llunio Lleoedd – byddai’r Clerc yn anfon yr holl ohebiaeth ymlaen fel y bo’n briodol.

**8. Materion ariannol:**

i) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw. Roedd y sefyllfa ar 26/01/2026 fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Y cyfrif cyfredol | £4,563.18 |
| Y cyfrif cadw | £1,077.96 |
| Cyfrif y Tabernacl | £4,638.80 |
| Cyfrif Cae Bach | £39,798.36 |
| Arian mân | £37.20 |
| Cyfanswm | **£50,115.50** |

Roedd disgwyl y byddai’r ad-daliad TAW ar gyfer y chwarter olaf dros £950. Nodwyd y byddai tua £14,500 arall yn cael ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn cynnwys y cymorthdaliadau, gan adael diffyg o ychydig dros £1,000. Gan na fyddai grant y fynwent yn dod i law tan fis Ebrill, byddai angen trosglwyddo tua £8,000 dros dro o gyfrif y Cae Bach i brif gyfrif y Cyngor. Cymeradwywyd trosglwyddo’r arian.

ii) Cymorthdaliadau 2025-26

Yn dilyn trafodaeth fer ar argymhellion y Pwyllgor Cyllid, penderfynwyd yn unfrydol ddyrannu’r grantiau fel a ganlyn:

| **Mudiad** | **Swm** | | | |
|---|---:|---|---:|---:|
| Clwb Ffermwyr Ifanc TyB | £200 | | | |
| Clwb Ieuenctid TyB | £200 | | | |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid TyB | £500 | | | |
| Clwb Pêl-droed TyB | £500 | | | |
| Cylch Meithrin TyB | £1,000 | * | | |
| Cymdeithas Amaethyddol TyB | £400 | | | |
| Cymdeithas *Papur Pawb* | £400 | | | |
| Neuadd Goffa Tal-y-bont | £1,000 | | | |
| Clwb Gofal Tal-yr-Hwyl (Clwb ar ôl Ysgol) | £200 | | | |
| Cymdeithas Maes Chwarae Cae’r Odyn Galch | £300 | | | |
| Blood Bikes Wales, Aberystwyth | £100 | | **Crynodeb** | |
| HAHAV | £100 | | Mudiadau lleol | £4,700 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200 | | Mudiadau sirol | £200 |
| Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd | £100 | | Mudiadau cenedlaethol | £300 |
| **Cyfanswm** | **£5,200** | | | **£5,200** |

*Er nad oedd y Cylch Meithrin wedi cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau, penderfynwyd yn unfrydol gynnig £1,000 ar yr amod bod cais yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y mis. Er tegwch, penderfynwyd hefyd wahodd y Grŵp Llifogwyr ac unrhyw fudiad lleol arall i gyflwyno cais hwyr.

iii) Cyllideb 2026-27

Yn dilyn trafodaeth ar y gyllideb ddrafft a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid, costau cynyddol a’r sylfaen dreth, cynigiwyd codi’r praesept i £20,000. Cynnig: Enoc Jenkins; Eilio: Catrin Davies. Penderfynwyd yn unfrydol dderbyn y gyllideb newydd. Gan fod yna bosibilrwydd y byddai’n rhaid ystyried costau cynnal a chadw toiledau cyhoeddus Tal-y-

bont yn y dyfodol, trafodwyd cynnal ymgynghoriad dros Clonc â'r trigolion lleol.

iv) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
   a. Ad-daliad TAW Hydref-Rhagfyr – £241.24
   b. Y fynwent – £255
   c. Llog banc – £19.35
   d. Cae Bach – £535.08
   e. Gweddill grant y Cyngor Sir (Cwtsh Cynnes) – £100
   f. Cyfraniad i gronfa Cae Bach gan Sue Marcus (trwy law Eryl Bray ar y noson) – £16

v) Anfonebau i'w talu:
   a. Llogi'r Neuadd Goffa, Hydref-Rhagfyr £210
   b. TME Electrical, goleuadau'r goeden Nadolig – £960
   c. Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £12.49
   d. Ellen ap Gwynn, costau Cwtsh Cynnes – £22.84
   e. Robert Griffiths, cynnal a chadw – £4,680

   Gan fod anfoneb Robert Griffiths yn sylweddol fwy na'r disgwyl, a chyn cymeradwyo'r taliad, penderfynwyd gofyn am fanylion pellach mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol i'r hyn a nodir ar y contract. Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r holl daliadau eraill uchod.

**9. Y Fynwent**

i) Penderfynwyd galw cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent ar 3 neu 4 Chwefror i drafod amryw faterion.

ii) Mynwent Nazareth: Roedd y fynwent wedi'i ffensio'n llwyr ac yn barod i'w throsglwyddo. Nodwyd y byddai £10,000 yn cael ei roi i'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw'r fynwent. Roedd y gwaith papur i gyd mewn trefn gyda'r cyfreithiwr. Penderfynwyd mai'r Cyng. Ellen ap Gwynn a Bleddyn Huws a fyddai'n llofnodi'r dogfennau, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r cyfreithiwr i drefnu dyddiad cyfleus i wneud hynny.

**10. Y Caeau Chwarae**

i) Ymgyrch Cae Bach: nodwyd bod Cam 1 o'r prosiect adnewyddu yn mynd rhagddo, gyda rhywfaint o'r cyfarpar newydd wedi cael ei archebu er mwyn bodloni telerau'r grant a gafwyd gan y Cyngor Sir. Roedd cais am grant wedi'i gyflwyno i Gronfa Leri, ac roedd y cais am grant y Loteri bron yn barod.

ii) Adroddiadau misol:
   - Bont-goch: postyn newydd yn ei le wrth y gât uchaf ond y gwaith heb ei orffen; postyn y gât isaf yn dechrau pydru ac angen un newydd. Penderfynwyd gofyn i John Henry Jones ei drwsio.
   - Cae Bach: roedd y ffens ar hyd y darn o dir y tu ôl wedi cwympo. Roedd y bin halen cyfagos wedi cael ei daro gan gerbyd; penderfynwyd symud y bin i fan mwy diogel.

**11. Unrhyw Fater Arall**

i) Roedd yna nifer o dyllau mawr yn y ffordd ger Cwmere a oedd yn anodd eu hosgoi.

ii) Roedd wal Dyffryn sy'n ffinio ag afon Ceulan yn edrych yn simsan iawn, gyda rhaff yn dal y ffens wrth y bont. Penderfynwyd cysylltu â'r perchnogion i nodi pryder y Cyngor.

iii) Roedd twll mawr wedi ymddangos ar y ffordd ger mynedfa Glanrafon, ac roedd cerbydau'n gyrru'n nes at y wal ansefydlog er mwyn ei osgoi.

**12. Enillwyr y Clwb 200**

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Ionawr fel a ganlyn:

1$^{af}$ – 10, William Jones (£50); 2$^{il}$ – 7, Tara Foster (£20); 3$^{edd}$ – 144, Alan Wilson (£10)
Cymeradwywyd talu’r gwobrau o gronfa Cae Bach.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 23 Chwefror 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55 p.m.

Llofnodwyd: ________________________ Dyddiad: ________________